# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERDYFI
# DYDD IAU, 12 TACHWEDD 2015

**YN BRESENNOL:**

Y Cyng. Dewi Owen, Anne Lloyd Jones (Cyngor Gwynedd), David Richardson (Cyngor Cymuned Aberdyfi), Y Cyng. Brian Bates (Bad Achub), Mr W Bracewell (Partneriaeth Aberdyfi), Mr Dave Williams (Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi), Mr Desmond George (Clwb Hwylio Dyfi), Mr Nigel Willis (Clwb Cychod Aberdyfi), Mr Neil Storkey (Clerc/Sylwedydd ar ran Cyngor Cymuned Aberdyfi)

Hefyd yn bresennol:

Swyddogion

| | | |
|---|---|---|
| Mr Barry Davies | - | Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig |
| Mr William Stockford | - | Harbwr Feistr Aberdyfi |
| Mr Gareth James | - | Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu |
| Mrs Mererid Watt | - | Cyfieithydd |

## 1. ETHOL CADEIRYDD

**Penderfynwyd: Ail-ethol y Cynghorydd Dewi Owen yn Gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2015/16.**

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

**Penderfynwyd: Ail-ethol y Cynghorydd Anne Lloyd Jones yn Is-gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2015/16.**

## 3. YMDDIHEURIADAU

Cyng. Mike Stevens, Mr Paul Fowles (Siambr Fasnach Aberdyfi), Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies (Aelod Cabinet Economi), Mr Llyr B. Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned),

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o gysylltiad personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 5. MATERION BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

**6. COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 3 Mawrth 2015.

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir**.

**7. ADRODDIAD GAN Y SWYDDOG MORWROL**

Cyflwynwyd: Adroddiad y Swyddog Morwrol, Mr Barry Davies ar weithgareddau harbwr Aberdyfi gyda chyfeiriad penodol at y canlynol:-
(A) Ffigurau angorfeydd Harbwr Aberdyfi
Cyflwynwyd y ffigurau ar gyfer 2015/16 ac fe nodwyd bod y nifer yn siomedig ond bod hyn yn deillio o dywydd anffafriol yr haf a sefyllfa fregus economi y sector forwrol. Nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Bydd y nifer llai yn cael effaith ar incwm ac felly bydd angen torri ar wariant a chyllidebau. Roedd y lleihad yma'n gyffredinol ar draws y wlad ac yn ehangach, tynnwyd sylw fod rhai marinas yn Ewrop gyda uchafswm o 30% mewn defnydd o angorfeydd.
- Hyderir bod y crebachiad yn y sector forwrol bellach wedi dod i ben a rhagwelir na fydd lleihad pellach gyda'r farchnad yn araf dyfu dros y ddwy flynedd nesaf.
- Mae ffurf yr adroddiad a gyflwynwyd wedi newid i fod yn llai hanesyddol ac yn fwy cryno, ond nodwyd bod manylion llawn ar gael i unrhyw un sydd eisiau ar ffurf electronig neu bapur.
- Mae Gwynedd yn llwyddo i gadw nifer y cychod pŵer yn sefydlog. Mae defnydd uchel o fadau dwr yng Ngwynedd o'i gymharu â siroedd cyfagos Ceredigion, Ynys Môn a Chonwy. Un o'r ffactorau allweddol yw'r cyfleusterau a trefniadau croesawu sydd yn cael eu cynnig i ddefnyddwyr cychod yng Ngwynedd
- Diolchwyd yn arbennig I Bwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi am Becynnau Ymwelwyr Aberdyfi a'u safon uchel.
- Nodwyd awydd i ehangu'r arfer llwyddiannus yma i ardaloedd eraill o Wynedd.
- Gwnaed cais gan y Cadeirydd i nodi'r nifer o ymwelwyr ag Aberdyfi yn yr adroddiad. Cytunodd y Swyddog Morwrol a Pharciau i wneud hyn yn yr adroddiad nesaf ar gyfer mis Mawrth 2016.

**Penderfynwyd:**
- **Derbyn a nodi'r uchod.**
- **Swyddog Morwrol a Pharciau i nodi nifer ymwelwyr yn yr adroddiad nesaf ar gyfer mis Mawrth 2016.**

**(B)** Cod Diogelwch Morwrol

- Nodwyd bod y Cod Diogelwch Morwrol wedi'i fabwysiadu'n llawn yn dilyn trafodaethau yn y Pwyllgorau Harbwr a'i fod yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Fe ddosbarthwyd copi i'r Aelodau eisoes ac mae ar gael ar wefan y Cyngor.
- Mae mabwysiadu'r Cod yn ymarfer da, ond nodwyd ei fod yn gallu bod yn anaddas mewn rhai sefyllfaoedd gan fod y Cod yn gofyn am yr un fath o

ofynion i Harbyrau cymharol fach fel Aberdyfi a Harbyrau mawr a llawer prysurach fel Dover. Byddai'n fuddiol cael canllawiau mwy cymwys a phwrpasol ar gyfer harbyrau llai eu maint.

- Bydd y Swyddog Morwrol a Pharciau'n anfon linc electronig at Aelodau yn dilyn ymgynghoriad gan y Llywodraeth i ddeddfwraieth arfaethedig a fyddai yn addasu pwerau diddymu harbyrau ac harbyrau cymwys.
- Anogwyd yr Aelodau i godi unrhyw bryderon ynglŷn â harbwr Aberdyfi cyn gynted â phosibl yn dilyn y digwyddiad a gallai aelodau wneud hyn drwy gysylltu gyda'r Harbwr Feistr neu'r Swyddog Morwrol a Pharciau.
- Yn ogystal mae lle i wyntyllu'r materion yn y Cyfarfodydd o'r Pwyllgor Harbwr yma. Trafodwyd yr achosion canlynol:

<u>Lansio Badau Dŵr Personol ar y Leri</u>

- Dydi Badau Dŵr Personol' ddim yn cael eu hystyried fel cwch neu long yng ngyd- destun Deddfwriaeth Llongau Masnachol. Gallai hyn fod yn rhwystr o ran rheoli defnydd.
- Os bydd digwyddiad gyda chwch (a bod y cwch wedi'i gofrestru) bydd yr Harbwr Feistr yn medru ymchwilio i'r mater.
- Cafwyd hanes am ddigwyddiad peryglus lle'r oedd 'Badau Dŵr Personol' yn tynnu 'donut' a hogyn ifanc yn llywio. Bu bron i hyn achosi damwain gas yn Aberdyfi. Nodwyd rhif y 'Badau Dŵr Personol' a'i gyflwyno i'r Harbwr Feistr. (Ond ni ellir dilyn y mater ymhellach gan fod y perchennog wedi gwerthu'r llestr.) Roedd y 'Badau Dŵr Personol' wedi cael ei lansio o'r Leri yng Ngheredigion.
- Mae'r ffaith bod y cychod yma'n cael eu lansio o'r Leri y tu allan i reolaeth Harbwr Feistr Aberdyfi yn rhwystr sylweddol i reolaeth, gan ei bod yn ymddangos nad oes modd cael cydweithrediad ar y mater gan Gyngor Ceredigion a Chyfoeth Naturiol Cymru.
- Mae'n anodd delio gyda sefyllfaoedd fel hyn gan nad oes rheol yn cael ei thorri.
- Mae'r Harbwr Feistr wedi bod draw at y Leri ar sawl achlysur i roi cyngor i ddefnyddwyr ac mae'n bod mor weithredol â phosibl yn y materion yma.

<u>Damweiniau eraill a nodwyd</u>

- Dim ond 5 cwyn a gafwyd eleni. Mae hyn yn lleihad sylweddol.
- Roedd un ddamwain wedi digwydd yng ngyffiniau'r harbwr gyda physgotwr yn colli ei fys bach ond ei fod wedi gwella.
- Cyfeirwyd at ddamwain ddrwg ym Morfa Bychan
- Cyfeirwyd hefyd at ddigwyddiad llynedd bu i 'Fad Dŵr Personol' daro 3 canŵ ar draeth y Warren ger Abersoch.

<u>Sylwadau pellach</u>

- Bod lle i gyfleu'r neges yn gyson i ddefnyddwyr cychod bod angen ystyried diogelwch bob amser.

**Penderfynwyd:**

- **Gofyn i Aelod Cabinet Economi Gwynedd gynnal trafodaethau gyda'r Aelod Cabinet cyferbyniol yng Ngheredigion i weld a ellir gwella'r trefniadau yn y Leri.**
- **Swyddog Morwrol a Pharciau Gwynedd i ymchwilio i weld a ellir trefnu bod Harbwr Feistr Aberdyfi yn cael hawl i weithredu ar y Leri**
- **Llythyr yn cael ei anfon gan Gyngor Gwynedd a Chyngor Cymuned Aberdyfi at Gyngor Ceredigion i ddatgan pryder am y sefyllfa ar y**

**Leri.**

- **Swyddog Morwrol a Pharciau i weld a ellir gwneud trefniant i gyd-ariannu gyda'r Cyngor Cymuned neu wneud trefniant i wirfoddolwyr cymwys i fod allan ar y dŵr yn goruchwylio adeg gwyliau ysgolion.**
- **Swyddog Morwrol a Pharciau i anfon linc electronig at Aelodau am eu sylwadau.**

## (C) Mesuryddion Perfformiad

Nodwyd mai un o bwrpasau mesur diffygion a data perthnasol yw er mwyn rhoi gwell gwasanaeth. Awgrymwyd y mesuryddion canlynol gan yr Aelodau:

- Nifer cychod
- Nifer digwyddiadau/damweiniau gan gynnwys materion ar y traeth - e.e. tractor a threlar yn achosi niwed, anafiadau

Gwnaed cais i'r Aelodau yrru unrhyw awgrymiadau pellach at y Swyddog.

**Penderfynwyd:**

- **Swyddog Morwrol a Pharciau i roi ystyriaeth i'r uchod.**
- **Aelodau i anfon unrhyw sylwadau pellach ymlaen at y Swyddog.**

## (CH) Mordwyo

Nodwyd nad oedd Rhybudd i Forwyr mewn grym yn Harbwr Aberdyfi.

Ystyriwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am y Cymhorthion Mordwyol gyda'r Aelodau a gwnaed y sylwadau canlynol:

- Mae'r bwi melyn newydd sy'n nodi cyfyngiad cyflymder o 4 môr filltir yn ddefnyddiol.
- Nodwyd bod aelodau'r Bad Achub a'r cychwyr yn hapus iawn gyda lleoliadau newydd ac ansawdd y cymhorthion.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

## (D) Cynnal a Chadw

Gofynnwyd am sylwadau'r Aelodau ynglŷn â'r gwaith sydd ar y gweill ac am unrhyw awgrymiadau pellach. Gwnaed y sylwadau canlynol:

- Nodwyd bod y gost o reoli'r tywod yn Harbwr Aberdyfi a Harbwr Abermaw yn costio £20,000 yr un bob blwyddyn. Pe gellid adnabod hyn fel gwaith gwarchod rhag llifogydd gallai bod modd cael hyd at 80% o gyllid ychwanegol.
- Natur y broblem yw pan fo'r gwynt o'r Dwyrain – prin yw'r gwaddodion o dywod; pan fo'r gwynt o'r Gorllewin fe gyfyd y broblem.
- Nodwyd bod rhwystr wedi'i osod i liniaru'r broblem a'i fod yn helpu rhyw gymaint
- Er bod y gwaith blynyddol o reoli'r tywod yn lliniaru'r broblem, mae

adegau pan fydd y sefyllfa yn gwaethygu'n sydyn ar derfyn y gwaith, gan beri i'r tywod ail-sefydlu ymhen cyfnod mor fyr â mis o amser.

Clwb Hwylio

- Roedd posibilrwydd i ddatrys y broblem yn rhannol o safbwynt y defnydd gan gychod sy'n cael eu lansio ac yn glanio wrth y Clwb Hwylio.
- Byddai defnyddio winsh bwrpasol yn fodd i gyflenwi'r angen yn ddiogel; ond bydd angen gwneud asesiad technegol i ddewis yr un addas.
- Bydd angen cynnal cyfarfod ar wahân i wyntyllu'r mater yma gyda swyddogion o'r Cyngor, ymgynghorydd arbenigol a chynrychiolydd o'r Clwb Hwylio.

Amddiffynfa Forol

- Nodwyd pryderon y gallai trosglwyddo cyfrifoldeb am reoli'r tywod i'r mater gwahanol o'r wal fel amddiffynfa golli ffocws ar yr angen i barhau i ddelio gyda'r gwaith o reoli'r tywod.
- Mae'r gwaith cyfredol o reoli'r tywod yn cael effaith ehangach o safbwynt ymgripiad tywod yn yr ardal – y twyni tywod, maes parcio, draeniau ac yn arbed y risg o lifogydd yn y pentref.
- Gwaethygodd y broblem yn dilyn stormydd mawr dwy flynedd yn ôl. Mae angen rhoi ystyriaeth i'r mater yn fuan; fe allai peidio gwario'r £20,000 yn flynyddol arwain at broblemau a chostau mwy.

Rhaglen Waith yr Harbwr

- Nododd yr Harbwr Feistr bod y rhaglen waith yn mynd yn ei blaen gan gynnwys y gwaith ar y Lanfa (jetty), gosod estyll, rheiliau, paentio, glanhau, gwaith ar y bwy allanol, angorfeydd ymwelwyr a chychod pŵer ac yn y blaen.
- Gofynnwyd am unrhyw awgrymiadau pellach gan yr Aelodau.

**Penderfynwyd:**

- **Swyddog Morwrol a Pharciau i gael mwy o fanylion am y cynllun hir dymor gyda symud tywod ar draeth Aberdyfi.**
- **Cynrychiolydd y Clwb Hwylio i roi syniadau i'r Swyddog Morwrol am y winsh**
- **Swyddog Morwrol i drafod gyda pheiriannydd/ymgynghorydd arbenigol**
- **Swyddog Morwrol I gyflwyno adroddiad byr ar y mater uchod i gyfarfod nesa'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2016.**
- **Aelodau i nodi unrhyw awgrymiadau am waith cynnal a chadw wrth yr Harbwr Feistr.**

**(DD) Materion Staff**

- Ni chafwyd llawer o geisiadau am waith Cymhorthydd Harbwr rhan amser rhwng Ebrill a Medi eleni.
- Rhoddir ystyriaeth i addasu cyfnod y swydd ar gyfer 2016.
- Gwnaed cais i bawb godi ymwybyddiaeth o'r swydd ymysg pobl cymwys.

Harbwr Feistr Aberdyfi

- Nodwyd diolchiadau a gwerthfawrogiad Cadeirydd y Clwb Hwylio o waith ardderchog yr Harbwr Feistr, ac fe ategwyd hyn gan Gadeirydd ac Is-

gadeirydd y Pwyllgor yma.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(E) Wal y Cei**

- Mae'r gwaith o ddatblygu'r cynlluniau ar gyfer uwchraddio wal y cei yn mynd rhagddynt gydag Ymgynghoriaeth Gwynedd yn arwain.
- Bydd effaith pellgyrhaeddol o gyflawni'r gwaith gan roi budd i'r pentref cyfan, Canolfan Dyfi, Outward Bound ac ati - h.y. mae Sylfaen gadarn i'r achos busnes.

**Cais Cynllunio**

- Cyflwynwyd y Cais Cynllunio I'r Parc Cenedlaethol ym mis Mehefin eleni
- Cynhelir cyfarfod safle'r wythnos nesaf
- Rhagwelir bydd gwaith dylunio manwl yn cael ei gwblhau erbyn y 13 Tachwedd 2015
- Mae Peiriannwyr yn ymgymryd a gwaith pellach er asesu cost y cynllun mor fanwl a sydd bosibl
- Bydd angen paratoi dogfenauTtndro
- Bydd cais yn cael ei gyflwyno am Drwydded Forol
- Disgwylir sylwadau pellach gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar yr Asesiad Ardrawiad Amgylcheddol.

**Cronfa Ariannol Newydd**

- Yn dilyn y broses cynllunio byd modd gwneud cais i'r Gronfa newydd.
- Bydd angen gwneud Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer y Gronfa yn fuan gan obeithio y daw cyllid i weithredu yn 2018.

**Penderfynwyd:**

- **Nodwyd pryder yr Aelodau am arafwch y broses gynllunio ac y gallai unrhyw oedi pellach gael effaith negyddol sylweddol ar y cynllun.**
- **Swyddog Morwrol a Pharciau i anfon copi electronig o lythyr Cyfoeth Naturiol Cymru at yr Aelodau**.

**(F) Ardal Tir y Comin**

Nodwyd y pwyntiau canlynol am y safle ar gyrion y pentref:

- Mae camddefnydd difrifol o'r tir gan adeiladwyr yn storio a gwaredu deunydd ar y safle.
- Diolchwyd am gefnogaeth y Cyngor Cymuned a phawb o aelodau'r Pwyllgor am eu cefnogaeth i ddelio gyda'r mater.
- Er bod peth gwaith tacluso wedi cymryd lle mae angen gwaith pellach i adfer y tir.
- Nodwyd bod hawl, dwy gytundeb, gan y Clwb Hwylio i storio rhywfaint o offer ar y safle.
- Awgrymwyd mai doeth fyddai peidio gôr ymateb i'r sefyllfa rhag i'r elfen o hawliau tir comin gael eu camddefnyddio gan rai i waethygu'r sefyllfa ymhellach
- Yr egwyddor sylfaenol yw mai lle i storio rhai deunyddiau mewn ffordd daclus a threfnus sydd yma. Nid oes hawl i dipio a gwaredu deunyddiau ar y safle o gwbl.

**Penderfynwyd:**

- **Swyddog Morwrol a Pharciau i drefnu i gael sgip ar y safle a chydlynu'r amserlen gyda chynrychiolydd y Clwb Hwylio er mwyn cael gwirfoddolwyr i gynorthwyo gyda'r gwaith clirio a thacluso.**
- **Gosod nod i gyflawni'r gwaith cyn yr haf.**

**(FF) Pontydd Llwybr Bryn Llestair**

- Mae'r Cyngor wedi ysgwyddo'r baich o gwblhau'r gwaith
- Mae archwiliad pont y rheilffordd yn dderbyniol ar hyn o bryd.
- Nodwyd pryder am ddarn mawr o graig sydd angen sylw ar ran o'r llwybr.

**(G) Gwaredu Cychod**

Nodwyd bod trefn dda ar hyn o safbwynt racio, a bod yr Harbwr feistr yn bwriadu gwaredu rhai cychod a na fydd wedi eu cofrestru gyda 'r Cyngor.

**(NG) Materion Ariannol**

Cyflwynwyd i sylw'r Aelodau:

- Adroddiad Cyfrif Incwm a Gwariant 2014-15 ar Harbyrau Cyngor Gwynedd
- Cyfrifon manwl ar gyfer Aberdyfi ac Abermaw
- Ffioedd newydd 2016/17

Nodwyd y canlynol:

- Bod gwariant sylweddol wedi digwydd yn Aberdyfi ar yr adeiladau gwerth £17,000 + ond oherwydd trefniadau ariannol Cyngor Gwynedd bod bod hyn yn ymddangos ar y cyfrifon fel tanwariant o £16,072.
- Nodwyd bod cyfraniad o £8,335 at gostau canolog yn dangos gwerth am arian o ystyried y gwasanaeth a gyflenwir.
- Mae'r incwm o ffioedd a rhenti i lawr i £33,270.
- Rhagwelir bydd cynnydd yn y ffioedd ar gyfer 2016/17 yn gynnydd bychan o 1%.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(H) Digwyddiadau**

- Nodwyd bod Gŵyl Bwyd Môr Aberdyfi wedi bod yn llwyddiant mawr.
- Amcanir bod tua 2000 o bobl wedi ymweld â'r pentref yn ystod y dydd.
- Cafwyd cydweithrediad da gyda 'Race the Train' yn Nhywyn.
- Diolchwyd i'r Clwb Hwylio am yr holl waith a gyflawnwyd yn wirfoddol.
- Croesawyd y bwriad i gynnal y Digwyddiad eto'r flwyddyn nesaf. Deellir mai'r dyddiad fydd y trydydd Dydd Sadwrn ym mis Awst 2016.

**8. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL**

**9. DYDDIAD CYFARFOD NESAF**

**Penderfynwyd:**

**Nodi y cynhelir nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol ar 10 Mawrth 2016.**

______________________________

**CADEIRYDD**